

Prif Ddигwyddiadau Hwylіo ym Mhwlheli 2012

Mae'n bleser gennym ar ran Clwb Hwylіo Pwllheli gyhoeddi eu rhaglen o brif achlysuron hwylіo ar gyfer tymor 2012.

Ym mlwyddyn y Gemau Olympaidd, mae'r Clwb wedi llwyddo iddenu ac yn edrych ymlaen at groesawu i'n plith y pencampwriaethau Finn Rhyngwladol Meistri'r Byd a'r Gystadleuaeth Gosod Safleoedd Rhyngwladol cychod Laser y DU. Ymhlith hwylwyr y ddau ddsbarth hwn, mae yna rai sydd â gobaith ennill medalau Olympaidd yn Awst 2012 yn Weymouth. Mae Pwllheli yn gartref pencampwriaethau'r DU ar gyfer y dosbarthiadau "Bwydo Olympaidd" iau y cychod 'Optimists' a 'Topper'. Rhain fydd y ddwy gystadleuaeth fwyaf ar gyfer dingis yn y DU yn ystod y flwyddyn.

Mae Pwllheli, heb unrhyw amheuaeth, ymhlith y lleoliadau hwylіo pwysicaf yn y DU ac wrth i'r Academi Hwylіo Genedlaethol newydd gael ei chodi, mae'r rhagolygon yn parhau'n llewyrchus ar gyfer hwylіo yng Nghymru.

1 - 6 Ebrill **RYA - Pencampwriaethau Ieuenctid y DU**

Dyma brif ddigwyddiad rhaglen hwylіo Ieuenctid y DU ac yma y dewisir hwylwyr i gynrychioli'r DU ym mhencampwriaethau Byd y Ffederasiwn Hwylіo Rhyngwladol (ISAF). Rhagwelir y bydd yno dros 220 o bobl ifanc (dan 19) yn cystadlu mewn 6 dosbarth dingi a hwylfyrrdio.

21 - 22 Ebrill **Pencampwriaethau Ieuenctid a Iau Cymru.**

Dros 120 o oreuon ifanc a iau Cymru yn ymgiprys i fod yn bencampwyr hwylіo cenedlaethol.

27 Mai - 1 Mehefin **Pencampwriaethau Finn Rhyngwladol Meistri'r Byd (Finn World Masters).**

Dyma'r pencampwriaethau sy'n cael eu hwylіo yn y math o gwch ddaeth a medal aur i Ben Ainsley yn y gemau Olympaidd ar ddau achlysur. Mae'r cystadleuwyr dros 40 oed a dyfernir gwobrau yn ôl categorïau oedran, gan gynnwys "Y Chwedlonol" (Legends) sydd dros 70 mlwydd oed. Rhagwelir y bydd dros 150 o gystadleuwyr, yn cynnwys cyn hwylwyr Olympaidd, o Ewrop a gweddill y Byd. Yn ystod y pencampwriaethau hyn, bydd y fflam Olympaidd yn cael ei chario drwy Bwllheli ar 28 Mai.

22 - 27 Gorffennaf **Pencampwriaethau Rhyngwladol Cenedlaethol ar gyfer cychod Topper y DU**

Disgwylir y bydd dros 350 o gystadleuwyr ifanc yn yr ornest hon. Dyma'r achlysur ail fwyaf ar gyfer un dosbarth drwy'r holl DU yn ystod 2012. Fel llwybr tuag at lawryfon Olympaidd, mae'r gystadleuaeth wedi cynhyrchu llawer o ddarpar hwylwyr ar gyfer Tîm Olympaidd

Prydain, gan gynnwys y tri brawd o Ynys Môn. Bydd Pencampwriaethau Byd y dosbarth hwn yn cael ei gynnal ym Mhwlheli yn 2014.

12 - 17 Awst Pencampwriaethau Rhyngwladol Cenedlaethol ac Agored cychod Optimist y DU.

Rhagwelir y bydd y Pencampwriaethau hyn yn denu dros 450 o hwylwyr (dan 16) o fwy na 15 o wledydd. Dyma'r achlysur mwyaf ar gyfer un dosbarth o gychod fydd i'w gael yn y DU yn 2012. Yn y gorffennol, mae enillwyr o'r dosbarth hwn wedi mynd ymlaen i ennill anrhydeddau Olympaidd a Byd-eang yn ddiweddarach yn eu gyrfa, ac mae'r rhain yn cynnwys aelodau o dîm Hwyllo Prydain ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain 2012, Hannah Mills a Ben Ainslie.

19 - 24 Awst Pencampwriaethau Cenedlaethol Firefly y DU

Cwch dingi 12 troedfedd i ddau ydy'r "Firefly" a rhagwelir y bydd dros 120 yn dod i gystadlu. Cynlluniwyd y cwch gan Uffa Fox, fe'i defnyddiwyd yn y Gemau Olympaidd ym 1948 ac mae'n boblogaidd ar gyfer rasio timau, gan gynnwys Pencampwriaethau Byd Timau Rasio'r Ffederasiwn Hwyllo Rhyngwladol (ISAF).

26 - 31 Awst Pencampwriaethau Cenedlaethol Cherub y DU

Dingi 12 troedfedd hynod o gyflym gyda sbinacr anghymesur a dwbl-trapîs ydy'r "Ceriwb". Dyma ddosbarth o gychod arloesol o ran dyluniad a deunydd – tua 70 cilogram ydy pwysau'r cychod a rhagwelir y bydd gweithgareddau'r 60 o hwylwyr yn peri cryn ryfeddod.

8 - 11 Medi. Pencampwriaethau RS 300 a 600 y DU

Dyma gychod dingi cyflym o'r dosbarth RS ar gyfer un hwylwr – a bydd y ddau ddosbarth yn rasio am bedwar diwrnod o hwyllo. Mae'r RS 300 yn gwch dingi 'heicio' chwim tra bod yr RS 600 yn gwch dingi trapîs.

6 - 7 Hydref. Cystadleuaeth Gosod Safleoedd Rhyngwladol cychod Laser y DU

Mae dau ddosbarth cychod laser, yn seiledig ar faint eu rig hwyliau. Dosbarth safon Olympaidd i ddynion ydy'r Rig Safonol tra bod y Rig Radial ar gyfer cychod dingi Olympaidd un person i ferched. Disgwylir y daw 130 i gystadlu am bwyntiau gosod safleoedd rhyngwladol ar gyfer 2013.

26 - 27 Hydref. Cyfres "Grand Prix" y DU ar gyfer cychod "29er" rhyngwladol.

Sgiff antur dau berson, gyda sbinacr cymesur a thrapîs, sy'n cael ei hwyllo'n bennaf gan hwylwyr ifanc. Mae'n llwybr i handlo cychod mwy o faint, megis y "49er" Olympaidd. Disgwylir gweld dros 60 o hwylwyr yn y gystadleuaeth hon, sy'n rhan o gyfres o rasys drwy'r DU.